



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Cyngor Sir      Dyddiad: Dydd Llun, 30 Ionawr 2012  
Rhif Union: 01824712589  
ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 7 CHWEFROR 2012** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

## AGENDA

### GWEDDI

#### 1 YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

#### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD** (Tudalennau 1 - 2)

I nodi'r ymrwymadau dinesig y bu Cadeirydd y Cyngor yn ymgymryd â nhw (copi'n atodol).

**5 COFNODION** (Tudalennau 3 - 6)

I dderbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 10, 2012 (copi'n atodol).

**10.05 a.m.**

**6 CYLLIDEB 2012 / 13** (Tudalennau 7 - 12)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi'n atodol) i'r Cyngor gymeradwyo cyllideb 2012 / 13 ac i gytuno'r cynnydd a ddymunir yn lefel y Dreth Cyngor.

**10.10 a.m.**

**7 RHEOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (CYMRYD ALCOHOL MEWN LLEOEDD CYHOEDDUS DYNODEDIG) 2007** (Tudalennau 13 - 44)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddiol (copi'n atodol). Pwrpas yr adroddiad ydi ystyried gweithredu gorchmynion arfaethedig ynglŷn â chymryd alcohol mewn lleoedd cyhoeddus o fewn ardaloedd cyfyngiad cyflymder 30 m.y.a. y Rhyl, Prestatyn, Llanelwy, Rhuddlan, Dinbych, Rhuthun, Llangollen, Corwen, Dyserth a Bodelwyddan.

**10.40 a.m.**

**8 BLAENRAGLEN WAITH Y CYNGOR** (Tudalennau 45 - 48)

I ystyried y flaenraglen waith sy'n amgaeedig.

**11.10 a.m.**

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Ian Armstrong  
Raymond Bartley  
John Bellis  
Brian Blakeley  
Joan Butterfield  
June Cahill  
Jeanette Chamberlain-Jones  
William Cowie  
Ann Davies  
Carl Davies  
James Davies  
Meirick Davies  
Pauline Dobb  
Peter Duffy  
Michael Eckersley  
Christine Evans  
Gwilym Evans  
Hugh Evans  
Bobby Feeley  
Sharon Frobisher  
George Green  
Ian Gunning  
Diana Hannam  
Colin Hughes

Neville Hughes  
Rhiannon Hughes  
Rhys Hughes  
Glyn Jones  
Huw Jones  
Morfudd Jones  
Richard Jones  
Gwyneth Kensler  
David Lee  
Paul Marfleet  
Lucy Morris  
Peter Owen  
Dewi Owens  
Allan Pennington  
Barbara Smith  
David Smith  
David Thomas  
Selwyn Thomas  
Julian Thompson-Hill  
Cefyn Williams  
Eryl Williams  
Glyn Williams  
Jane Yorke

### **COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cyngorau Tref a Chymuned

This page is intentionally left blank

Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd/Events attended by the Chairman  
01.01.12 - 31.01.12

<u>Dyddiad/Date</u>	<u>Digwyddiad/Event</u>	<u>Lleoliad/Location</u>
10/01/12	Cyngor Sir / County Council	Rhuthun/Ruthin
19/01/12	Seremoni Dinasyddiaeth / Citizenship Ceremony	Rhuthun/Ruthin
25/01/12	Lawnsiad Bookstart Bedtime CD Launch	Dinbych/Denbigh
26/01/12	Gwasanaeth Holocaust Memorial Day Commemoration (Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice-Chair attended)	Y Rhyl/Rhyl

This page is intentionally left blank

## CYNGOR SIR

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar Ddydd Mawrth, 10 Ionawr 2012 am 11.30 y.b.

## PRESENNOL

Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, John Bellis, Brian Blakeley, Joan Butterfield, June Cahill, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie (Cadeirydd), Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Pauline Dobb, Michael Eckersley, Christine Evans, Gwilym Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, George Green, Ian Gunning, Diana Hannam, Colin Hughes, Rhys Hughes, Glyn Jones, Morfudd Jones, Gwyneth Kensler, Paul Marfleet, Lucy Morris, Peter Owen, Dewi Owens, Allan Pennington, Barbara Smith, David Smith, David Thomas, Selwyn Thomas, Julian Thompson-Hill a Cefyn Williams

## YN BRESENNOL HEFYD

M Mehmet (Prif Weithredwr), B Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol: Trawsnewid Busnes ac Adfwyd), G Williams (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd), S Cordiner (Prif Gyfreithiwr), a S Price (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd)

## SYLWADAU'R CADEIRYDD

Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd y Cyngor, ar dderbyn OBE yn rhestr anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Frenhines am wasanaethau i lywodraeth leol. Ymatebodd y Cynghorydd Hughes trwy ddweud bod yr anrhydedd yn ganlyniad i'r modd yr oedd aelodau, y Prif Weithredwr a swyddogion eraill wedi cyd-weithio i wella gwasanaethau.

Estynnodd y Cadeirydd hefyd ei longyfarchiadau i Dîm Goleuo Stryd Sir Ddinbych ar eu llwyddiant diweddar gyda chynllun Gwobrau Rhagoriaeth y Gymdeithas Gwasanaethau Cyhoeddus Cenedlaethol (APSE).

## DEISEB

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Blakeley ddeiseb yn erbyn cyflwyno mwy o rwystrau traffig ar Ffordd Trellewelyn, Rhyl. Derbyniodd y Cadeirydd y ddeiseb er sylw ac ymateb y Cyd-Bennaeth Priffyrdd a Seilwaith.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr C Carl Davies, Neville Hughes, Rhiannon Hughes, David Lee, Eryl Williams a Jane Yorke

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni fynegwyd unrhyw fuddiannau.

### **3 MATERION BRYN FEL Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

### **4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD**

Hysbyswyd yr aelodau bod dyddiadur y Cadeirydd wedi'i ddsbarthu.

### **5 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2011. Nododd y Cynghorydd Gwilym Evans nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod fel y nodwyd yn y cofnodion, a'i fod wedi anfon ei ymddiheuriadau.

Mewn perthynas â'r item Harbwr Foryd a drafodwyd ar 15 Tachwedd 2011, cytunwyd ar awgrym y Cynghorydd Rhys Hughes y dylid anfon gwybodaeth reolaidd i'r Cyngor ar ôl cyfarfodydd y Bwrdd Prosiect. Cyfeiriodd y Cynghorydd Colin Hughes at y Siarter gyda chynghorau tref a chymuned, a gofynnodd a allai'r Cyngor ystyried dyddiaduron cyfarfodydd cynghorau tref a chymuned wrth drefnu digwyddiadau cymunedol fel ymweliadau ymgeiswyr a chyfarfodydd aelodau ardal. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Trawsffurfiad Busnes ac Adfywiad i gysylltu â'r swyddogion perthnasol.

**PENDERFYNWYD** - yn amodol ar yr uchod, y dylid cadarnhau cofnodion cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2011 a 24 Tachwedd 2111 fel cofnodion cywir, a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

### **6 CEISIADAU I GOFRESTRU TIR A ELWIR 'Y PARC' GERLLAW Ffordd ELAN, RHYL FEL TIR GWYRDD PENTREF**

Cyflwynodd y Prif Gyfreithiwr adroddiad mewn perthynas â dau gais i gofrestru tir a elwir Y Parc, gerllaw Ffordd Elan, Rhyl, gan roi amlinelliad o'r safle a'r ceisiadau. Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wybodaeth ar y meini prawf cyfreithiol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu dilyn wrth wneud penderfyniadau fel Awdurdod Cofrestru Tir Comin. Hysbyswyd y Cyngor nad oedd dymunoldeb ac ystyriaethau cynllunio yn weithredol.

Hysbyswyd y Cyngor bod ymchwiliad annibynnol anstatudol a gomisiynwyd gan y Cyngor i archwilio rhinweddau ceisiadau wedi argymhell gwrthod pob rhan o'r safle cais.

Siaradodd y Cynghorwyr Ian Gunning a Brian Blakeley ar ran y cais ar y sail bod ar drigolion eisiau diogelu a gwella'r tir ar gyfer defnydd agored, hamddenol; dyma nod y credent y dylai'r Cyngor ei gefnogi.

Trafododd aelodau:

- Os oedd y ceisiadau yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer cofrestru tir fel Tir Gwyrdd Pentref

- Dymunoldeb gwella a diogelu darpariaeth o ofod agored yn yr ardal
- Perchnogaeth y safle cais: yn rhannol dan berchnogaeth y Cyngor ac yn rhannol gan T Anwyl a'i Fab Cyf
- Yr amgylchiadau lle y gellid herio penderfyniad gan y Cyngor yn yr Uchel Lys drwy adolygiad barnwrol
- Opsiynau adolygu ar gael i'r Cyngor yn ôl ei bwerau i sicrhau darpariaeth o ofod agored
- Safbwyntiau'r trigolion

Gwnaethpwyd cais am gofnodi'r bleidlais a phasiwyd hynny, ond tynnwyd yn ôl cyn i'r bleidlais ddiwydd.

**PENDERFYNWYD:**

- (i) *Bod y Cyngor yn mabwysiadau argymhellion yr Arolygydd a benodwyd gan y Cyngor i wrthod dau gais, a dderbyniwyd gan y Cyngor, i gofrestru tir a elwir Y Parc, ger Ffordd Elan, Rhyl, fel Tir Gwyrdd Pentref;*
- (ii) *Gofyn i swyddogion ac aelodau lleol i gyfarfod gyda chynrychiolwyr y sawl a gyflwynodd y ceisiadau o fewn 28 diwrnod i drafod diogelu'r tir o fewn perchnogaeth y Cyngor ar gyfer darpariaeth gofod agored, a*
- (iii) *Gofyn i swyddogion adolygu'r pwerau statudol sydd ar gael i'r Cyngor mewn perthynas â'r tir cais sydd heb fod o fewn perchnogaeth y Cyngor gyda golwg ar sicrhau darpariaeth gofod agored.*

**7 COMPACT AM NEWID RHWNG LLYWODRAETH CYMRU AC AWDURDODAU LLEOL**

Agorodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Hugh Evans, y drafodaeth ar Compact rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn nodi telerau perthynas newydd drwy gyd-weithio a gweithio partneriaeth i wella perfformiad, effeithlonrwydd a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Diolchodd y Cynghorydd Evans i'r grwpiau gwleidyddol am ganiatáu i'r Prif Weithredwr ac yntau drafod y Compact gyda hwy yn unigol. Dywedodd fod Sir Ddinbych mewn sefyllfa dda i lofnodi'r Compact a'i fod yn ystyried cydweithio fel un o'r ymagweddau allai ddiogelu gwasanaethau rheng-flaen. Ymhellach, byddai'r Compact yn egluro'r agenda cydweithredu i lywodraeth leol a llywodraeth wladol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ond bod risg y gallai'r Cyngor wynebu cosbau ariannol ac ymyriadau gwleidyddol os nad oedd yn gwireddu'r disgwyliadau o fewn y Compact.

Rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad ar y tri phrosiect cydweithio mawr yr oedd y Cyngor eisoes yn eu cynnal o ran addysg, gwasanaethau cymdeithasol a 'gwasanaethau eraill' (gan gynnwys trin gwastraff, priffyrdd, TGCh a chaffael). Nododd y byddai'n rhaid i achosion busnes hyfyw ar gyfer gwelliannau ac arbedion effeithlonedd gael eu profi cyn y gallai unrhyw brosiectau cydweithio eraill ddatblygu y tu hwnt i'r cam adolygu.

Gwnaeth y Cynghorydd Barbara Smith ymholiadau ynghylch y cerrig milltir (dyddiadau cyflwyno) yn y Compact (rhai eisoes wedi mynd heibio), a gofynnodd y Cynghorydd Green os oedd y Compact yn gytundeb unochrog lle'r oedd yr holl

ddisgwyliadau yn syrthio ar yr awdurdod lleol. Nododd y Prif Weithredwr bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau gydag ef mai cyfranogi oedd y ffactor allweddol, nid y cerrig milltir, gan gadarnhau bod rhai o'r cerrig milltir wedi pasio neu'n afrealistig. Roedd wedi gofyn i Lywodraeth Cymru nodi hyn yn ysgrifenedig. Dywedodd mai safbwynt Llywodraeth Cymru oedd eu bod wedi darparu setliad ariannol rhesymol i'r ychydig flynyddoedd nesaf a'u bod yn eu tro yn disgwyl gweld agenda'r Compact yn cael ei wireddu.

Codwyd materion eraill hefyd gan Aelodau sef:

- Bod angen ffyrdd newydd o ymgysylltu ag aelodau etholedig y tu hwnt i'r ffyrdd a ddarparwyd gan y byrddau cydweithio rhanbarthol
- Byddai holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn ystyried a oeddynt am lofnodi'r Compact ai pheidio
- Bod y niferoedd gwahanol o gynghorwyr ar awdurdodau Gogledd Cymru yn golygu bod angen peirianwaith teg i sicrhau nad oedd aelodau etholedig Sir Ddinbych yn llai dylanwadol nag aelodau'r cynghorau eraill.

Cytunodd yr Arweinydd gyda datganiad y Cynghorydd Marfleet na ddylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru lofnodi cytundebau cyn ymgynghori ag awdurdodau lleol, a nododd ei fod wedi codi'r pwynt hwn gyda'r WLGA.

**PENDERFYNWYD:**

- (i) *Bod Aelodau'n cytuno y dylid llofnodi'r Compact;*
- (ii) *Bod Aelodau'n cytuno y bydd Sir Ddinbych yn chwarae rôl briodol o ran gweithredu'r ystod cyfan o drefniadau cydweithio a nodir yn y Compact, cyn belled:*
  - (a) *â bod gwelliannau gwasanaeth amlwg i drigolion Sir Ddinbych, neu*
  - (b) *bod arbedion o ran adnoddau a bod y model gwasanaeth newydd arfaethedig yn darparu gwasanaeth i drigolion Sir Ddinbych sydd o leiaf cystal â'r gwasanaeth y mae'n mynd i'w ddisodli..*

## **8 BLAEN-RAGLEN WAITH Y CYNGOR**

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd bod angen cadarnhau lefelau Treth y Cyngor ar 28 Chwefror 2012 ynghyd ag adroddiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Bellach, nid oedd angen adroddiad ar y Cynllun Corfforaethol yn Ebrill 2012.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Rhys Hughes at adroddiad ar 28 Chwefror ynghylch canllawiau cynllunio atodol ar y cyd ar Safle Treftadaeth Byd Pont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte. Nododd ei fod wedi deall y byddai'r eitem hon yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cynllunio cyn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Trawsnewid Busnes ac Effeithlonrwydd y byddai'n ceisio esboniad ar y mater hwn.

**PENDERFYNWYD** – *y dylid cymeradwyo blaen-raglen waith y Cyngor.*

**Adroddiad i'r:** CYNGOR

**Dyddiad y Cyfarfod:** 7 Chwefror 2012

**Aelod Arweiniol Cabinet:** Y Cyngorydd Julian Thompson Hill

**Swyddog Arweiniol:** Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau

**Teitl:** Cyllideb 2012/13

## **1 Beth yw byrdwn yr adroddiad?**

Mae'r adroddiad yn manylu'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2012/13.

## **2 Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?**

Dan y gyfraith, mae gofyn i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys y gellir ei chyflawni ar ddechrau pob blwyddyn ariannol a phennu lefel y Dreth Gyngor sy'n deillio, er mwyn caniatáu anfon biliau at y trigolion.

## **3 Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod yr aelodau'n cymeradwyo cynigion cyllidebol ar gyfer 2012/13, fel y dangosir yn yr atodiad.

3.2 Bod yr aelodau'n cytuno'r cynnydd o 2.8% sy'n deillio yn lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2012/13.

## **4 Manylion yr adroddiad**

4.1 Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru y cytundeb terfynol ddechrau mis Rhagfyr. Roedd hwn yn dangos y cytundeb terfynol ar gyfer pob Cyngor. Roedd wedi newid rhyw ychydig o'r drafft a gyhoeddwyd ym mis Hydref.

4.2 Dangosodd y cytundeb terfynol mai'r cynnydd yn ein cyllid grant refeniw fyddai 0.7%.

4.3 Dangosodd y cytundeb terfynol bod y toriad yn ein cytundeb cyfalaf hefyd yr un fath â'r hyn a nodwyd yn y drafft. Mae'r cyllid wedi ei dorri gan 6.9% (yn cyfateb i ryw £400k) sy'n waeth na'r toriad o 5% yr oeddym wedi cynllunio ar ei gyfer yn wreiddiol. Mae hyn yn golled arwyddocaol ar ben y toriad 20% a gawsom i gytundeb eleni, yn golygu colli rhyw £2f dros y ddwy flynedd o £7.8m i £5.7m. Y cyllid cyfalaf cyffredinol yw'r hyn rydym yn dibynnu arno i wneud gwaith lechyd a Diogelwch, gwaith cynnal a chadw mawr ac ati – y gwaith sy'n caniatáu i ni gynnal ein hadeiladau. Yr awgrymiadau rhagarweiniol yw y bydd hyn yn cael ei dorri £700k pellach (12%) yn 2013/14.

## **Cynllun Ariannol Tymor Canol**

4.4 Mae'r rhagolygon i gyllid cyhoeddus yn wael o hyd yn y tymor canol. Mae'n debygol y bydd cytundebau isel a sefyllfa ariannol anodd yn parhau y tu hwnt i gyfnod y cynllun tair blynedd presennol. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig

iawn i'r Aelodau ystyried cymryd golwg hirdymor ar holl gynigion i arbed, a pheidio â cheisio cael opsiynau hawdd sy'n rhoi ateb byrdymor.

- 4.5 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol wedi adnabod arbedion ar gyfer y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae pob blwyddyn yn cynnwys cynigion nad ydynt wedi eu cyfrifo'n llawn, neu sydd efallai'n ddyheadol. Mae hyn yn golygu bod risg na ellir eu cyflawni. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r angen i arbed dros y tair blynedd nesaf:

	2012/13	2013/14	2014/15
Targed Arbedion	£3.5m	£3.4m	£4.4m
Mewn perygl		£1.2m	£2.9m

- 4.6 Ar ôl trafodaethau gydag aelodau a gwasanaethau, disodlwyd yr arbedion hynny yr ystyrir eu bod mewn perygl ar gyfer 2012/13 gydag arbedion gwahanol y credir eu bod yn rhai y gellir eu cyflawni.
- 4.7 Roedd y Cynllun Ariannol wedi tybio'n wreiddiol y byddai cynnydd mewn costau mewn nifer o feysydd. Mae'n anodd bob amser darogan newidiadau chwyddiant yn gywir mewn llawer o feysydd gwariant ac mae'r Cyngor wastad wedi gorfod bod yn ddarbodus yn ei dybiaethau.

#### **Cynnydd mewn costau tanwydd ac ynni**

- 4.8 Mae cynnydd mewn costau ynni yn debygol o fod yn is na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol ac wedi gostwng faint o arbedion sydd eu hangen.

#### **Cyflog a Statws Sengl**

- 4.9 Mae'r gyllideb yn tybio cynnydd bychan mewn cyflog staff. Serch hynny, bydd nifer o fisoedd nes byddwn yn gliriach ar y cynigion ar gyfer cyflogau, oherwydd eu bod yn cael eu trafod ar lefel y Deyrnas Unedig.
- 4.10 Achosodd y cytundeb ar statws sengl ddwy faich ariannol ar gyllideb y Cyngor. Y gyntaf oedd cynnydd untro mewn costau cyflog gan fod nifer o aelodau staff wedi eu symud i radd uwch. Yr ail oedd 'drifft cynyddrannol' y graddau hyn. Mae hyn yn golygu y bydd staff wedi eu penodi ar waelod y radd a thros amser yn symud i frig y radd. Rydym wedi sefydlu cyllideb i dalu am hyn a bydd wedi ei dyrannu'n llawn i'r gwasanaethau erbyn 2014/15.

#### **Amddiffyn ysgolion**

- 4.11 Disgwyl Llywodraeth Cymru y bydd ysgolion yn cael eu hamddiffyn rhag yr arbedion. Rhaid i'r Cyngor roddi i ysgolion swm sy'n cyfateb i 1% dros y cytundeb. Mae Sir Ddinbych wedi cyllidebu ar gyfer cynnydd ar y lefel hon sy'n golygu y bydd ysgolion yn derbyn cynnydd cyllidebol o £1.25m ac yn cyfateb i gynnydd o ryw £90 fesul disgybl.

#### **Ffioedd Gwasanaethau Cymdeithasol**

- 4.12 Mae pwysau penodol pellach ar y gwasanaethau sydd raid delio â hwy. Y pwysicaf yw ffioedd cartrefi preswyl. Ar ôl penderfyniad Sir Benfro, mae pob cyngor wedi adolygu ei strwythur ffioedd ac yn cynyddu'r symiau maent yn eu

talau. Mae'r gyllideb yn cynnwys cynnydd yn y gyllideb ffioedd i adlewyrchu'r gwaith a wnaed hyd yma gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

### Buddsoddiad Blaenoriaeth

4.13 Gofynnwyd i'r aelodau ystyried pa feysydd y dylid anelu cronfeydd blaenoriaeth atynt. Cefnogwyd y dyraniadau gwreiddiol a awgrymwyd yn gyffredinol, ynghyd â buddsoddiad ychwanegol mewn newid demograffig / tai gofal ychwanegol fel y dangosir isod:

	£k Cyllideb	£k Arian
Ysgolion yr 21ain ganrif	200	200
Priffyrdd	100	
Cynlluniau Trefi a Chymunedau	100	100
TGCh	300	
Harbwr Foryd	100	
Newid Demograffig / Gofal Ychwanegol	200	
CYFANSWM	1,000	300

4.14 Fel rhan o broses pennu cyllideb 2011/12, neilltuodd y Cyngor gronfa wrth gefn o ryw £340k rhag ofn nad oedd yr arbedion wedi eu cyflawni neu'n llithro i'r dyfodol. Mae'n annhebygol iawn nawr y bydd angen y rhan fwyaf o'r gronfa hon gan fod bron i bob gwasanaeth yn adrodd bod ganddynt gyllidebau cytbwys neu danwariant.

4.15 Mae'r Cabinet wedi argymhell bod yr arian hwn yn cael ei ychwanegu at y cyllid sydd ar gael fel y nodir yn y tabl uchod. Mae hwn yn gyllid untro na fydd ar gael mewn blynyddoedd i ddod.

4.16 Byddai angen cefnogi unrhyw gynnydd i wario cyllid blaenoriaeth gydag achos busnes llawn ac os bydd yr aelodau'n dewis hynny, medrent newid lefel y cyllid i gynigion unigol cyn belled â nad yw'r cyfanswm yn fwy na £1m mewn gwariant parhaus a 300k mewn gwariant untro.

### Y Dreth Gyngor

4.17 Mae Atodiad 1 yn dangos sefyllfa gyllidebol gyffredinol y Cyngor ac yn dangos y bydd y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn 2.8%.

4.18 Mae Sir Ddinbych wedi pennu'r cynnydd isaf yn y Dreth Gyngor yng Ngogledd Cymru yn y chwech o'r saith blynedd diwethaf ac yn parhau i ddarparu gwasanaethau i'w thrigolion. Mae adolygiad anffurfiol yn awgrymu mai gennym ni fydd lefel ail isaf y Dreth Gyngor ymhlith Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer 2012/13. Yn genedlaethol, ymddengys bod y rhan fwyaf o Gynghorau yn pennu cynnydd yn y Dreth Gyngor o rhwng 2 a 3%, er bod dyrnaid o Gynghorau yn bwriadu cynnydd o 0%.

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys y blaenoriaethau corfforaethol.

**6 Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

Mae Atodiad 1 yn dangos cyllideb lawn y Cyngor a goblygiadau'r cynigion yn yr adroddiad hwn.

**7 Pa ymgynghori a fu?**

Cafwyd her gwasanaeth gyda phob pennaeth gwasanaeth ac roedd pob her yn cynnwys cynrychiolwyr y pwyllgor craffu a'r Cabinet. Cynhaliwyd gweithdai cyllidebol gyda'r aelodau ym mis Medi, Rhagfyr ac Ionawr. Bu i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad hefyd adolygu'r broses o bennu'r gyllideb.

**8 Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

Bydd 2012/13 yn flwyddyn heriol arall i gyllid y Cyngor. Mae'n debygol y bydd cytundebau cymharol isel yn parhau yn y tymor canol a rhaid i'r Cyngor gadw hyn mewn cof wrth bennu'r gyllideb hon.

Mae'r gyllideb fel y'i cynigir yn realistig ac yn un y gellir ei chyflawni. Mae'n cyflawni arbedion digonol i sicrhau sefyllfa gytbwys, yn amddiffyn gwasanaethau rheng flaen rhag gostyngiadau mawr ac yn caniatáu buddsoddi £1m ym mlaenoriaethau'r Cyngor.

Cyflawnir hyn gyda chynnydd 2.8% yn y Dreth Gyngor sy'n cymharu gyda chwyddiant cyffredinol sy'n rhyw 4.5%.

**9 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?**

Os na chytunir y gyllideb o fewn yr amserlen berthnasol, yna mae'r Cyngor yn torri'r gyfraith.

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu, a bydd methu â chyflawni'r strategaeth gyllideb a gytunwyd yn rhoi mwy bwysau ar y gwasanaethau yn y flwyddyn ariannol hon ac i'r dyfodol. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol ac adrodd yn gynnar am unrhyw amrywiadau yn sicrhau cyflawni'r strategaeth ariannol.

**10 Pŵer i gymryd y Penderfyniad**

Mae gofyn i awdurdodau, dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, drefnu bod eu materion ariannol yn cael eu gweinyddu'n briodol.

	1	2	<u>2012/13</u> 3	4	5	6	
	Cyllideb 2011/12	Chwyddiant	Grant LIC 0.7%	Trosglwyddiadau	Buddsoddiad/ Arbedion	Cyllideb Amcanol	
	£k	£k	£k	£k	£k	£k	
Cynllunio Busnes a Pherfformiad	722				0	722	
Llywodraethu Corfforaethol	1,449	70			-118	1,401	
Cyllid ac Asedau	6,549				-300	6,249	
Priffyrdd a Seilwaith	11,744				-288	11,456	
Adfywio, Cynlliunio a Gwarchod y Cyhoedd	3,508				-170	3,338	
Gwasanaethau Oedolion a Busnes	32,055	800			-900	31,955	
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	9,603				-42	9,561	
Gwasanaethau Tai	340				-7	333	
Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedol	5,664				-260	5,404	
AD Strategol	1,173				-45	1,128	
Gwasanaethau Cwsmeriaid	2,865				-85	2,780	
Amgylchedd	12,142				-771	11,371	
Moderneiddio Addysg	1,650				0	1,650	
Gwella Ysgolion a Chynhwysiant	7,618				-125	7,493	
Cyllideb Ddirprwyedig Ysgolion	55,647	946				56,593	
	152,729	1,816	0	0	-3,111	151,434	
Corfforaethol	5,531				1,000	6,531	
Ardoll Tân	4,552	20				4,572	
Cyllid Cyfalaf / Llogau a dderbyniwyd	11,381	250				11,631	
Chwyddiant	2	2,599			-332	2,269	
CRONFA WRTH GEFN ar gyfer Pwysau Pellach	650					650	
Cyfraniad i'r Cronfeydd	300	0				300	
Arbedion Effeithlonrwydd Pellach *	0	0				0	
	175,145	4,685	0	0	-2,443	177,387	
<b>2. Lefel Ariannu</b>							
Cyllid LI C	136,538	0	904	0		137,442	
Defnyddio cronfeydd	50	0				50	
	136,588	0	904	0	0	137,492	
Arenillion y Dreth Gyngor	38,557	4,685	-904	0	-2,443	39,895	<b>2.80</b>
	175,145	4,685	0	0	-2,443	177,387	

This page is intentionally left blank

<b>Adroddiad i:</b>	<b>CYNGOR LLAWN</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>7 Chwefror 2012</b>
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog:</b>	<b>Mr Graham H Boase</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Mr Roly Schwarz</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Defnydd o Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus Dynodedig) 2007</b>

---

## **1. Beth yw testun yr adroddiad?**

- 1.1** I ystyried gweithredu'r gorchmynion arfaethedig ynghylch y defnydd o alcohol ymhob man cyhoeddus sy'n syrthio o fewn cyfyngiad cyflymdra 30mya Rhyl, Prestatyn, Llanelwy, Rhuddlan, Dinbych, Rhuthun, Llangollen, Corwen, Dyserth a Bodelwyddan.

## **2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

- 2.1** I roi pwerau ychwanegol i Heddlu Gogledd Cymru i ymdrin yn effeithiol â niwsans ac anrhefn gyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r defnydd o alcohol yn Sir Ddinbych.
- 2.2** Mae'r adroddiad yn argymhell estyniad i'r ardaloedd sydd ar hyn o bryd yn destun Gorchymyn Man Cyhoeddus Dynodedig ac yn cyflwyno ardaloedd newydd lle mae tystiolaeth a ddarparwyd gan Heddlu Gogledd Cymru yn dynodi bod problemau yn ymwneud â throedd, niwsans cyhoeddus, anrhefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r defnydd o alcohol mewn mannau cyhoeddus.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1** Bod yr aelodau'n ystyried y canlynol:
- (a). Canlyniadau'r ymgynghoriad gyda Heddlu Gogledd Cymru
  - (b). Canlyniadau'r ymgynghoriad gyda Chynghorau Tref a Chymuned
  - (c). Canlyniadau'r ymgynghoriad gyda pherchnogion unrhyw dir allai syrthio o fewn y gorchymyn.
- 3.2** Os yw aelodau'n fodlon, yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd, y dylid creu'r Gorchymyn, ac y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddiol.

- (a) I greu Gorchymyn yn dynodi'r ardaloedd yn yr atodlen sydd ynghlwm fel Mannau Cyhoeddus Dynodedig er dibenion Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001.
- (b) I gyhoeddi hysbysiad yn nodi bod gorchymyn yn cael ei greu.
- (c) I godi amwyddion yn dynodi'r ardaloedd dan sylw fel Mannau Cyhoeddus Dynodedig.
- (d) I sicrhau bod copi o'r Gorchymyn yn cael ei anfon i'r Ysgrifennydd Gwladol yn y Swyddfa Gartref.

#### 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Adran 12 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 yn rhoi pwerau diamod, er mwyn rhwystro niwsans cyhoeddus ac anrhefn, i orfodi person sydd wedi yfed alcohol yn ddiweddar neu sy'n bwriadu yfed alcohol mewn Man Cyhoeddus Dynodedig i:

- Roir gorau i yfed yr alcohol (neu unrhyw beth y credir ei fod yn alcohol)
- Ildio'r botel neu'r gwydr, os ydy wedi'i selio neu heb ei selio.

4.2 Gall unigolion sy'n methu â chydymffurfio gyda chais o'r fath wynebu gweithredu pellach. Gallai hynny olygu hysbysiad cosb am anrhefn o £80.00; restiad ac erlyniad (gyda'r posibilrwydd o ddirwy nad yw'n fwy na lefel dau ar y raddfa safonol, sy'n £500.00 ar hyn o bryd); gorfodi amodau mechniaeth i rwystro'r unigolyn rhag yfed mewn man cyhoeddus.

4.3 Nid yw Gorchymyn Man Cyhoeddus Dynodedig yn waharddiad ar yfed alcohol yn gyhoeddus, ond mae'n rhoi pwerau diamod i'r Heddlu i reoli yfed gwrth-gymdeithasol.

4.4 Caiff Gorchymynion Mannau Cyhoeddus Dynodedig eu hadolygu'n flynyddol i asesu eu heffaith ar drosedd, anrhefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol. Cyn adolygu'r ardaloedd cyfredol, mae effeithiolrwydd dynodi mannau cyhoeddus o fewn cyfyngiad cyflymder 30 m.y.a. fel Mannau Cyhoeddus Dynodedig wedi'i drafod gyda'r Heddlu a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'r adolygiad blynyddol y soniwyd amdano yn digwydd yn flynyddol fel rhan o'r Asesiad Strategol o drosedd, anrhefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol a gynhelir gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

4.5 Mae gwyboddaeth ystadegol o ran nifer y troseddau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yn yr ardaloedd arfaethedig wedi'i chynnwys fel **Atodiad A**.

4.6 Mae Atodlen yr ardaloedd lle mae'r gorchymyn cyfredol yn cael ei ymestyn yn cynnwys Rhyl, Prestatyn a Llangollen. Mae gorchymyn newydd yn cael ei gyflwyno i Llanelwy, Dinbych, Rhuthun, Corwen, Dyserth, Rhuddlan a Bodelwyddan

4.7 Gobeithir y bydd y mesurau yfed cyhoeddus yn darparu ymateb effeithiol i'r problemau a gysylltir gyda defnydd gwrth-gymdeithasol mewn mannau cyhoeddus. Mae hyn yn aml yn cynnwys yfed alcohol dan oed, ond gall hefyd

gynhyrchu problemau o ran trosedd, niwsans cyhoeddus, anrhefn a niwsans cymerithasol sy'n effeithio ar ansawdd bywyd trigolion ac ymwelwyr â'r ardal.

4.8 Dylid nodi bod y manau canlynol wedi'u heithrio o Orchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig:

- Adeliadau â thrwydded i werthu alcohol dan Ddeddf Drwyddedu 2003
- Adeliadau sy'n manteisio ar Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro a gyflwynwyd gan Ddeddf Drwyddedi 2003.
- Mannau lle caniateir gwerthu neu ddefnyddio alcohol ar briffyrdd cyhoeddus yn sgil caniatâd a roddwyd dan Adran 115 E o Ddeddf 1980 (defnyddwyr cysylltiedig â phriffyrdd.).

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd lleihau trosedd, niwsans cyhoeddus, anrhefn ac ymddygiad gwrthgymerithasol yn gwella diogelwch cymunedol.

6. **Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni chynlluniwyd unrhyw gostau i unrhyw wasanaeth. Cynhelir y prosiect ar sail arian grant o'r Gronfa Gweithredu yn erbyn Camddefnyddio Sylweddau.

Mewn manau lle mae'r gorchymnion yn eu lle ar hyn o bryd, mae yna lai o drosedd ac ymddygiad gwrth-gymerithasol.

7. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Mae'r ymgynghoriad sy'n ofynnol i'r broses hon o fewn deddfwriaeth yn Rheoliad Awdurdodau Lleol (Defnydd o Alcohol mewn Manau Cyhoeddus Dynodedig) 2007.

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r cynghorau tref a chymuned berthnasol, a dychwelwyd ffurflenni ymgynghori oddi wrth yr holl gynghorau tref a chymuned berthnasol ar wahân i Bodelwyddan a Rhuthun. Mae'r ffurflenni ymgynghori hyn ynghlwm fel **Atodiad B**.

Gellir gweld o'r ffurflenni ymgynghori bod Cynghorau Tref Prestatyn a Dinbych wedi ymateb yn negyddol i gwestiwn 3, a oedd yn gofyn am eu cefnogaeth i'r gorchymyn arfaethedig. Ers hynny, mae Clerc Cyngor Trefn Dinbych wedi cadarnhau mewn e-bost gefnogaeth y cyngor i'r gorchymyn, sydd hefyd ynghlwm fel Atodiad B. Roedd Gorchymyn eisoes yn ei le ym Mhrestatyn ac mae'r cynnig newydd hwn i adfywio'r hen orchymyn i gynnwys mwy o fannau o fewn y dref.

Ymddangosodd hysbysiad cyhoeddus yn y Rhyl Journal ar 25 Mai 2011 a Denbighshire Press ar 26 Mai, 2011 – ynghlwm fel **Atodiad C**. Ni dderbyniwyd unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig o fewn 29 diwrnod i gyhoeddiad yr hysbysiad.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

Dylai costau gweithredu'r gorchmynion estynedig aros o fewn yr arian grant allanol sydd ar gael.

**9. Beth yw'r risgiau, ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae yna risg y gall trosedd ac anrhefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol gynyddu. Mae'r hinsawdd ariannol sydd ohoni wedi gweld cynnydd yn swmp yr alcohol rhad sydd ar gael o is-drwyddedwyr. Bydd y mesurau hyn yn sicrhau nad yw mwy o werthiant yn arwain at gynnydd mewn yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus agored, a chynnydd mewn trosedd, niwsans cyhoeddus, anrhefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol cysylltiedig â hynny.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 12 Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 yn rhoi pwerau diarnod i Awdurdodau Lleol i wneud gorchmynion i mwystro niwsans cyhoeddus ac anrhefn sy'n gysylltiedig â'r defnydd o alcohol mewn Mannau Cyhoeddus Dynodedig.



# Conwy & Denbighshire Community Safety Partnership


**Author: Matthew Stewart, NWP**

**Date: 18/10/2011**

Tudalen 17

<b>Information requested by:</b>	Paul Baker Conwy CBC
<b>Date requested:</b>	14/09/2011
<b>Information requested:</b>	
	1. Alcohol related crime in Rhyl, Rhuddlan, St Asaph, Ruthin, Bodelwyddan and Dyserth between 01/04/2009 and 31/03/2011.
<b>Information source:</b>	NWP - RMS via Business Objects NWP – ICAD via Business Objects
<b>Information date range:</b>	01/04/2009 - 31/03/2011
<b>Limitations:</b>	-


